



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020

Canllaw i Awdurdodau Lleol

**Ionawr 2021**

Paratowyd y ddogfen hon gan Lywodraeth Cymru fel canllaw ar Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020. Dylid darllen y Canllaw ar y cyd â'r Ddeddf ac nid yw'n rhan ohoni.

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	3
2. Cefndir.....	3
3. Y drosedd.....	3
4. Ystyr ‘gweithredwr syrcas’ .....	4
5. Ystyr “anifail gwylt” .....	4
6. Ystyr “syrcas deithiol”.....	5
7. Diwygiadau ynghylch trwyddedu syrcasau .....	6
8. Gorfodi.....	7
9. Rhagor o wybodaeth .....	7

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Diben y Canllaw hwn yw ategu Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020 (“y Ddeddf”).<sup>1</sup> Cafodd ei baratoi gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu pobl i ddeall y Ddeddf. Mae’n rhoi arweiniad cyffredinol ar ei chynnwys a lle bo hynny’n briodol, trwy roi nodiadau ychwanegol ar ei darpariaethau cyffredinol a phenodol. Nid yw’n rhan o’r Ddeddf ac nid yw’r Senedd wedi’i gymeradwyo.
- 1.2 Nid yw’r Canllaw hwn yn ddisgrifiad manwl o’r Ddeddf. Dylid ei ddefnyddio fel dogfen gyfeirio a’i ddarllen ar y cyd â’r Ddeddf. Er y bwriad yw iddo fod mor ddefnyddiol â phosibl, ni ddylid ei ystyried yn ddehongliad pendant o’r gyfraith. Mater i’r llysoedd yn y pen draw fydd ei dehongli.

## 2. Cefndir

- 2.1 Daeth y Ddeddf i rym ar 1 Rhagfyr 2020 gan ei gwneud yn drosedd i syrcasau teithiol ddefnyddio anifeiliaid gwyllt yng Nghymru. Mae’n berthnasol i Gymru yn unig.
- 2.2 Fe welwch esboniad manwl o fwriadau’r polisi sy’n sail i ddibenion y Ddeddf yn y Memorandwm Esboniadol<sup>2</sup> a gyhoeddwyd gyda’r Ddeddf.

## 3. Y drosedd

- 3.1 Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i weithredwr syrcas deithiol ddefnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol neu beri neu ganiatáu i berson arall wneud hynny.
- 3.2 Nid yw’r Ddeddf yn effeithio ar y defnydd o anifeiliaid domestig mewn syrcasau teithiol na chwaith yn rhwystro defnyddio anifeiliaid gwyllt fel adloniant mewn sefyllfaoedd eraill.
- 3.3 Mae anifail gwyllt yn cael ei ‘ddefnyddio’ os bydd yn perfformio neu’n cael ei arddangos.
- 3.4 Mae anifail gwyllt yn “perfformio” os bydd, er enghraifft, yn gwneud triciau neu symudiadau i gynulleidfa.
- 3.5 Bydd anifail gwyllt yn cael “ei arddangos” os yw’n cael ei arddangos i’r cyhoedd, hyd yn oed os digwydd hynny y tu allan i brif arena’r syrcas. Byddai gosod yr anifail gwyllt yn fwriadol fel y gall y cyhoedd ei weld mewn caeau cyfagos i’r syrcas yn cyfrif fel “arddangos” yr anifail, ac felly hefyd ddangos yr anifail nesaf at boster syrcas neu mewn unrhyw ffordd arall i hyrwyddo’r syrcas deithiol. Ni fydd gweithredwyr syrcasau teithiol yn cyflawni trosedd, fodd bynnag, os bydd rhywun yn anfwriadol yn gweld anifail gwyllt sydd mewn

---

<sup>1</sup> Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020: <https://www.legislation.gov.uk/asc/2020/2/enacted>

<sup>2</sup> Memorandwm Esboniadol i Fil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru): <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/bil-anifeiliaid-gwyllt-a-syrcasau-cymru-memorandwm-esboniadol.pdf>

lloc yn yr awyr agored, cyn belled nad yw'r anifail gwyllt wedi ei roi yno'n fwiadol i gael ei weld neu i hyrwyddo'r syrcas deithiol.

- 3.6 Gallai fod yn anodd sicrhau bod anifail gwyllt mewn syrcas deithiol allan o olwg yn llwyr heb beryglu ei les. Ni fyddai gweithredwr y syrcas wedi troseddu os bydd, er enghraifft, aelod o'r cyhoedd yn digwydd gweld anifail gwyllt yn pori mewn cae oni bai bod y syrcas deithiol wedi gwneud ymdrech benodol i annog y cyhoedd i'w weld.
- 3.7 Bydd syrcasau teithiol yn cael parhau i gadw anifeiliaid gwyllt ond nid eu defnyddio. Gall gweithwyr y syrcas gadw anifeiliaid gwyllt fel anifeiliaid anwes a'u cadw lle maen nhw'n byw. Hefyd, gall y syrcas gadw anifeiliaid gwyllt sydd wedi ymddeol sy'n dal i fyw a theithio gyda'r syrcas. Caiff syrcasau teithiol barhau i gludo anifeiliaid gwyllt yng Nghymru, cyn belled nad ydynt yn cael eu defnyddio yng Nghymru.
- 3.8 Cyn belled nad yw'r syrcas deithiol yn defnyddio anifail gwyllt, nid oes trosedd wedi'i chyflawni o dan y Ddeddf. Er hynny, gallai deddfau eraill effeithio ar y sefyllfa. Darllenwch Adran 7 am fanylion y trwyddedau o dan y Ddeddf Trwyddedu Swau neu'r Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus sydd eu hangen ar syrcasau teithiol neu unigolion yn y syrcasau teithiol hynny i gael cadw anifeiliaid gwyllt. Bydd Deddf Lles Anifeiliaid 2006<sup>3</sup> yn parhau i ddiogelu lles yr anifeiliaid tra'u bod yng Nghymru.
- 3.9 Nid oes gofyn i'r anifail gwyllt fod wedi'i gludo gan y syrcas deithiol na bod yn eiddo i'r syrcas deithiol i drosedd fod wedi'i chyflawni.

#### **4. Ystyr 'gweithredwr syrcas'**

- 4.1 Bydd unrhyw berson sy'n weithredwr syrcas yn troseddu os bydd yn defnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol neu'n peri neu'n caniatáu i berson arall wneud hynny.
- 4.2 Dim ond gweithredwr y syrcas deithiol all cyflawni'r drosedd. Y gweithredwr yw perchennog y syrcas deithiol neu berson arall nad yw'n berchennog ar y syrcas deithiol ond sy'n bennaf gyfrifol am weithrediad y syrcas neu, os nad yw'r naill na'r llall yn bresennol yn y Deyrnas Unedig, y person yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am weithrediad y syrcas deithiol. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth hefyd ynghylch unigolion a all fod yn atebol pan fo'r drosedd wedi ei chyflawni gan gwmni etc.

#### **5. Ystyr "anifail gwyllt"**

- 5.1 Mae "anifail gwyllt" yn anifail o fath nad yw wedi ei ddomestigeiddio yn gyffredin yn yr Ynysoedd Prydeinig. Byddai anifeiliaid yr ystyrir eu bod wedi eu domestigeiddio yn gyffredin yn y wlad y maent yn tarddu ohoni ond nad ydynt o fath sydd wedi ei ddomestigeiddio yn gyffredin yn yr Ynysoedd

---

<sup>3</sup> Deddf Lles Anifeiliaid 2006: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/45/contents>

Prydeinig yn “anifeiliaid gwyllt” o dan y Bil. Er enghraifft, mae camelod a cheirw Llychlyn yn anifeiliaid gwyllt o dan y Ddeddf.

5.2 Dyma enghreifftiau eraill o “anifeiliaid gwyllt”:

- Cathod mawr, fel llewod a theigrod
- Eliffantod
- Sebraod
- Racwniaid
- Nadredd

5.3 Nid yw “anifeiliaid gwyllt” yn cynnwys anifeiliaid domestig cyffredin fel cŵn, cathod, ceffylau, lamas/alpacas, cwingod a cholomennod.

5.4 Mae Atodiad A y Canllaw i Ddeddf Trwyddedu Swau 1981<sup>4</sup> yn cynnwys gwybodaeth am rywogaethau y gellid eu hystyried yn anifeiliaid gwyllt.

5.5 Mae hi’n bosibl y daw rhywogaethau gwyllt, neu anifeiliaid sy’n rhai sydd wedi’u domestigeiddio mewn gwledydd eraill i gael eu hystyried yn anifeiliaid domestig cyffredin yn Ynysoedd Prydain yn y dyfodol oherwydd niferoedd a newid defnydd. Os yn y dyfodol y ceir ansicrwydd neu wahaniaeth barn a yw math o anifail yn anifail gwyllt neu beidio at ddiben y Ddeddf, gall Gweinidogion Cymru bennu trwy reoliadau a yw math penodol o anifail yn un gwyllt neu beidio. Fodd bynnag, ni fydd y pŵer i wneud rheoliad yn rhagfarnu’r diffiniad cyffredinol o anifail gwyllt yn y Ddeddf. Hefyd, nid yw’r pŵer hwn yn gofyn i Weinidogion Cymru restru pob anifail gwyllt mewn deddfwriaeth.

5.6 Mae “anifail” yn golygu’r ystyr a roddir iddo gan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 ac mae’n cynnwys yn unig anifeiliaid ag asgwrn cefn.

## 6. Ystyr “syrkas deithiol”

6.1 Ni ddiffinnir y gair “syrkas” yn y Ddeddf a dibynna felly ar y dehongliad arferol.

6.2 Gallai ymgymeriad, act, adloniant neu ei debyg alw ei hun yn “syrkas”, naill ai yn ei enw neu yn ei gais am gydnabyddiaeth o dan drefniadau deddfwriaethol sy’n rheoli syrkasau mewn gwledydd eraill. Ond gallai ymgymeriad, act, adloniant neu ei debyg ddod o fewn ystyr arferol y gair “syrkas” hyd yn oed os nad yw’n defnyddio’r gair “syrkas” yn ei ddeunydd hysbysebu. Nid oes angen i’r gair “syrkas/circus” ymddangos yn yr enw.

6.3 Mae “syrkas deithiol” yn golygu syrkas sy’n teithio o un lle i’r llall er mwyn darparu adloniant yn y manau hynny. Mae’r diffiniad yn cydnabod bod syrkas yn “syrkas deithiol” er y bydd cyfnodau hir pan na fydd yn teithio (e.e. yn y cyfnodau tawel).

---

<sup>4</sup> Zoo Licensing Act 1981: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/37>

- 6.4 Nid yw “syrkas deithiol” fodd bynnag yn cynnwys ymgymeriad, act, adloniant neu ei debyg sydd fel arfer yn sefydlog ac yn galw ei hun yn “syrkas” ac sy’n teithio i symud i leoliad sefydlog newydd. Fodd bynnag, bydd yn drosedd pe bai ymgymeriad, act, adloniant neu ei debyg sydd fel arfer yn sefydlog yn anfon act anifeiliaid gwyllt i gynnal sioe syrcas unrhyw le heblaw am ei leoliad swyddogol neu pe bai’n adleoli’n barhaol sawl gwaith.
- 6.5 Nid yw’r ffaith y gallai ymgymeriad, act, adloniant neu ei debyg sy’n defnyddio anifail gwyllt gynnwys agwedd addysgol yn golygu na allai olygu ystyr arferol syrcas, os bydd hanfod yr ymgymeriad, yr act, adloniant neu ei debyg yn gyson â’r ystyr arferol hwnnw.
- 6.6 Mae’r canlynol yn enghreifftiau o fathau o ymgymeriadau, actau, adloniant neu eu tebyg **na** ellir fel arfer ystyried eu bod yn gyson ag ystyr arferol y gair syrcas:
- Arddangosfeydd adar ysglyfaethus
  - Arddangosfeydd ceirw Llychlyn adeg y Nadolig (h.y. defnyddio ceirw Llychlyn mewn ffair Nadolig neu adloniant tebyg dros yr ŵyl)
  - Gweithgareddau maes gan swau
  - Swau symudol
  - Hyfforddi neu gadw anifeiliaid ar gyfer eu defnyddio ar setiau ffilm
  - Ymweliadau ag ysgolion neu at ddiben addysgol
  - Sesiynau neu bartïon trin anifeiliaid, ar gyfer plant fel arfer ond nid yn llwyr.
- 6.7 Mae’n bosibl efallai y bydd ansicrwydd neu wahaniaeth barn ynghylch a yw math o ymgymeriad, act neu adloniant yn syrcas deithiol ai peidio. Mae’r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu pa fath o ymgymeriad, act, adloniant neu ei debyg sydd i’w ystyried yn syrcas deithiol, ac nad yw i’w ystyried yn syrcas deithiol, at ddibenion y Ddeddf. Nid yw’r pŵer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru restru, mewn deddfwriaeth, bob math o ymgymeriad, act neu adloniant sydd i’w ystyried yn syrcas deithiol.

## 7. Diwygiadau ynghylch trwyddedu syrcasau

- 7.1 Mae’r Ddeddf yn gwneud newidiadau i Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976<sup>5</sup> (“Deddf 1976”) a Deddf Trwyddedu Swau (“Deddf 1981”) sy’n golygu, er mwyn cael cadw anifeiliaid gwyllt, y gallai fod angen trwydded sw neu drwydded anifeiliaid gwyllt perygl ar syrcasau.
- 7.2 Yn ôl Adran 1 o Ddeddf 1976, ni chaiff unrhyw un gadw anifail gwyllt peryglus heb fod ganddo drwydded. Mae’r Ddeddf yn diddymu’r esemptiad ar gyfer syrcasau yn adran 5(2) yn Neddf 1976. Mae hynny’n golygu y bydd angen i unrhyw syrcas (teithiol neu sefydlog) sy’n cadw ond nad yw’n defnyddio anifail

---

<sup>5</sup> Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1976/38>

gwyllt peryglus gael trwydded o dan Ddeddf 1976, oni daw'r syrcas o dan ddarpariaethau Deddf 1981.

- 7.3 Yn ôl Adran 1 o Ddeddf 1981, mae'n anghyfreithlon rhedeg sw heb drwydded o dan Ddeddf 1981. Mae'r Ddeddf yn newid adran 1(2) Deddf 1981 fel bod syrcasau yng Nghymru yn dod o dan ddiffiniad "sw". Mae hyn yn golygu y gallai fod gofyn i syrcas yng Nghymru gael trwydded sw os yw Deddf 1981 yn gymwys iddi. Rhaid i syrcas fodloni gofynion adran 1 o Ddeddf 1981 er mwyn gallu cael trwydded sw. Os nad yw Deddf 1981 yn gymwys, yna gallai Deddf 1976 fod yn gymwys ac y gallai fod angen trwydded anifeiliaid gwyllt peryglus arni.

## 8. Gorfodi

- 8.1 Disgrifir y pwerau gorfodi yn Atodlen y Ddeddf. Mae'r Atodlen yn nodi hyd a lled y pwerau hyn ac yn creu troseddau os bydd unrhyw un yn amharu ar arfer y pwerau hynny.
- 8.2 Awdurdodau Lleol yn bennaf fydd yn gorfodi'r Ddeddf gyda'u gweithgareddau gorfodi mewn perthynas â syrcasau teithiol. Ni fydd darpariaethau'r Ddeddf yn debygol o gael eu torri'n aml, os o gwbl, a disgwylir i syrcasau teithiol gydymffurfio â'r gwaharddiad. Bydd y drosedd o ddefnyddio anifail gwyllt fel arfer yn amlwg i'r cyhoedd. Os ceir bod gweithredwr yn euog o drosedd, gallai'r llys roi dirwy ddiderfyn iddo.
- 8.3 Nid ydym wedi cynnwys crynodeb o'r pwerau gorfodi yn y canllaw hwn. Dylech droi at y Ddeddf a'r Nodiadau Esboniadol am faterion gorfodi.

## 9. Rhagor o wybodaeth

- 9.1 Os hoffech drafod unrhyw beth am y canllaw hwn, cysylltwch â Changen Fframwaith a Lles Anifeiliaid Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol:

Cangen Fframwaith a Lles Anifeiliaid  
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Neu ebostiwch: [companionanimalwelfare@gov.wales](mailto:companionanimalwelfare@gov.wales)